



gweithio gyda'n gilydd i  
wella bywydau pobl hŷn yng  
Nghymru

## Cynghrair Henoed Cymru Maniffesto 2016



Mae Cynghrair Henoed Cymru yn gynghrair o 21 o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol, sy'n ymroddedig i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r fframweithiau deddfwriaethol, polisi ac adnoddau, a fydd yn gwella bywydau pobl hŷn. Ar y cyd, mae gan y sefydliadau sy'n aelodau o Gynghrair Henoed Cymru wybodaeth helaeth ynghylch datblygu a chyflwyno gwasanaethau, ac maent yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl hŷn ledled Cymru. Mae aelodau yn gweithredu ar lefel strategol, yn ogystal â lefel weithredol, ac mae nifer ohonynt yn seiliedig ar aelodaeth.

## Cynghrair Henoed Cymru

Mae demograffeg Cymru yn newid. Mae rhagolygon poblogaeth yn amcangyfrif, erbyn 2030, bydd nifer y bobl dros 65 oed fydd yn byw yng Nghymru wedi cynyddu 34%. Bydd y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl dros 85 oed; rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn 80%. O ganlyniad i'r newid hwn, bydd nifer y bobl a fydd yn byw â nam ar eu synhwyrau, dementia a chyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd yn debygol o gynyddu.

Mae Cymru yn gweithio tuag at fod yn lle da i fynd yn hŷn; mae gennym ni strategaeth pobl hŷn, comisiynydd pobl hŷn a deddfwriaeth newydd, deddfwriaeth newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a deddfwriaeth i ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'r cyfan yn dangos, ar lefel strategol, ein bod yn hollol ymroddedig i gyflawni ein nod.

Mae Cynghrair Henoed Cymru o'r farn bod angen symud y ffocws tuag at weithredu. Mae'n rhaid i bobl hŷn gael mynediad at ofal iechyd a chymdeithasol cwbl integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a bod yn egniol a chysylltiedig, ac yn ddiogel yn ariannol. Yn ogystal, mae angen i Lywodraeth Cymru

### Mae'r 21 sefydliad canlynol yn aelodau o Gynghrair Henoed Cymru:

Action on Hearing Loss Cymru  
Age Connects Wales  
Age Cymru  
Cymdeithas Alzheimer Cymru  
Gofal Arthritis Cymru  
British Lung Foundation  
Y Groes Goch yng Nghymru  
Gofal a Thrwsio Cymru  
Contact the Elderly Carers Trust  
Gofalwyr Cymru  
Cruse Cymru  
Deafblind Cymru  
Prime Cymru  
Learning and Work Institute  
Anabledd Cymru  
Y Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol  
RNIB Cymru  
Sense Cymru  
Gymdeithas Strôc  
Volunteering Matters

gynorthwyo datblygiad rhwydweithiau cymdeithasol a mentrau ataliol a all danategu ac ysgogi gweithgarwch cymunedol a galluogi pob unigolyn h n i fyw bywyd llawn ac egnïol. Mae'r camau isod yn dangos sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y dyheadau hyn yn cael eu gwireddu.

## **1. Dylai fod gan bob unigolyn h n fynediad at ofal iechyd a chymdeithasol cwbl integredig o ansawdd uchel. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy:**

- Sicrhau bod sefydliadau cenedlaethol y trydydd sector yn cael eu cynrychioli'n llawn ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol ac yn ymwneud yn llawn â'u gwaith.
- Sicrhau bod gan aelodau byrddau partneriaeth rhanbarthol drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur.
- Amddiffyn gwasanaethau lleol sy'n llwyddiannus o ran cynorthwyo pobl h n i fyw'n dda a chynnal annibyniaeth.
- Datblygu, hyrwyddo a chefnogi camau ataliol i leihau'r ddibyniaeth tymor hir ar ofal ffurfiol.
- Sicrhau y rhoddir mecanweithiau ar waith sy'n galluogi pobl h n i fod yn rhan o ddylunio, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
- Mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb presennol o ran mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl h n sy'n byw â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Sicrhau bod asesiadau ar gyfer gofal yn ffocysu ar gael cymorth priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl a chyflawni'r canlyniadau tymor hir gorau posibl.
- Datblygu amrywiaeth o ddulliau newydd sy'n ymestyn cyrhaeddiad, cwmpas, argaeledd a mynediad at wasanaethau ailalluogi i helpu pobl h n i wella; gwasanaethau adsefydlu i helpu pobl h n i wynebu'r heriau a ddaw yn sgil nam corfforol; y model gwella i gynorthwyo pobl h n ag iechyd meddwl gwael i gynnal eu hannibyniaeth.

## **2. Dylai pob unigolyn h n fod yn egnïol a chysylltiedig. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy:**

- Sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn ystyried yn llawn effaith toriadau i wasanaethau cyhoeddus ar fywydau pobl h n heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
- Cefnogi deddfwriaeth sy'n tanategu'r agenda ataliol trwy feithrin cymuned leol a rhwydweithiau cymdeithasol, sy'n caniatáu i bobl h n reoli eu lles.

- Sicrhau bod systemau trafndiaeth gyhoeddus a mynediad at wasanaethau hanfodol yn y gymuned a'r ysbyty.
- Annog pobl sy'n agosáu at oedran ymddeol i wneud cysylltiadau cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwirfoddoli ac ymgysylltiad sifil.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad i wasanaethau digidol.
- Rhaid sicrhau bod tai priodol ar gael i bawb, gan gynnwys darparu tai gwarchod a gofal ychwanegol, neu fod addasiadau priodol yn cael eu gwneud i eiddo presennol.
- Datblygu mecanweithiau sy'n galluogi pobl h n i gymryd rhan weithredol mewn ffurfio'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw.

### **3. Dylai pob unigolyn h n fod yn ddiogel yn ariannol. Gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy:**

- Sicrhau bod pobl h n yn ymglymedig ag unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thalu am ofal.
- Sicrhau bod prentisiaethau ar gael i bobl o bob oed.
- Sicrhau bod gan bobl h n fynediad at wasanaethau gwybodaeth ac eiriolaeth. Rhaid bod gwasanaethau yn gyfan gwbl hygyrch i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau a chyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Gweithio gyda phob sector i sicrhau atebolrwydd ar y cyd ar gyfer galwadau dieisiau a phost sothach.
- Cynorthwyo undebau credyd lleol.

**Cyswllt:** Rachel Lewis [rachel.lewis@agealliancewales.org.uk](mailto:rachel.lewis@agealliancewales.org.uk)

**Ffôn:** 029 2043 1554

**Gwefan:** [www.agealliancewales.org.uk](http://www.agealliancewales.org.uk)

**Twitter:** @AgeAllianceWal